

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 14 Mai 2018 am 8.30 yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA

Croesawyd Shanice Thomas i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth ar blismona yn gyffredinol

TROSGLWYDDO'R GADEIRYDDIAETH

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn ogystal i'r Clerc hefyd am ei gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd newydd i'w ragflaenydd am ei waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac am ei waith o fewn y gymuned dros nifer o flynyddoedd.

Etholwyd swyddogion eraill i'w swyddi.

Y CAE CHWARAE:

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Byddai'r toiledau ar y cae chwarae tan ddiwedd Medi 2018.

Penderfynwyd y byddai bocs awgrymiadau yn cael ei osod ar y cae chwarae yn ystod y diwrnod hwyl sef 07 Gorffennaf 2018 i ofyn am syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â sut i ddatblygu y cae chwarae. Byddai'r Cyngor Bro yn ddiolchgar iawn am unrhyw syniadau ac awgrymiadau a hefyd awgrym o ddyddiad i gynnal cyfarfod ar y cae chwarae.

LLWYBRAU CYHOEDDUS

Derbyniwyd gwybodaeth y byddai angen i'r Cynghorau Bro gynnal a chadw rhai o llwybrau cyhoeddus y plwyf yn y dyfodol. Byddai'r Cynghorwyr yn penderfynu pa lwybrau i'w cynnal.

CEISIADAU

Penderfynwyd cefnogi Ysgol Gynradd Llanllwni (Diwrnod o Hwyl).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Gorffennaf 2018 am 8.00yh.